

Ysgrifennu disgrifiadol

- CATH** Faint ddwedest ti ydi'r bil trydan?!
- JAC** Gormod!
- MIRIAM** Wel, 'sgynnon ni ddim dewis, felly, nag oes?
- CATH** Byw heb drydan?
- MIRIAM** Naci'r twmffat! Ma' rhaid i ni ffeindio rhywun i rannu'r tŷ, does? A rhannu'r biliau ...
- CATH** Iawn. Lle mae dechrau?
- JAC** Ni angen hysbyseb. Un fydd yn sefyll allan yng nghanol yr hysbysebion eraill 'ma.
- CATH** Un 3D?!
- JAC** Na, Cath! Y geiriau fydd yn gwneud iddi sefyll allan.
- CATH** Mae'r rhain yn hysbysebion da... Fflat moethus gyda dwy lofft ar gael ym Mae Caerdydd.
- MIRIAM** Ond ma' dewis o eiria da yn rhein. Sbiwch – mae 'golygfeydd godidog' yn hon. Ac un arall: llofft ddwbl braf ar gael mewn fflat hyfryd ar lan afon Taf. O! Dwi isio byw yn fan 'no.
- JAC** Achos y 'braf' a'r 'hyfryd'?
- MIRIAM** Wel, ma'n nhw 'di dewis ansoddeiriau da, dydyn?
- CATH** Geiriau sy'n disgrifio ydy'r rheina, ynde? A maen nhw'n dweud ei bod yn llofft ddwbl, sy'n dangos ei bod yn eitha mawr.
- JAC** Syml, ond effeithiol ...
- CATH** Effeithiol iawn! Gest *ti* dy fachu efo'r frawddeg gynta! Iawn, felly 'dan ni angen brawddeg gynta sy'n tynnu sylw.
- JAC** Mae'n rhaid i ni ddewis y geiriau'n ofalus, yn union fel sgrifennu cerdd ...
- MIRIAM** Ocê. Be am 'Chwilio am stafell fawr, braf?'

Bitesize

- CATH** Ond dydy hi ddim yn stafell fawr iawn. Mae'n rhaid i ni fod yn onest, does?
- MIRIAM** Ocê, wel, mae'n cael digon o haul yn y bore. Be am 'stafell heulog'?
- CATH** Mmm. Ia. Dwi'n licio hwnna. Rŵan, mae angen mwy o wybodaeth – disgrifia'r stafell.
- JAC** Os yw e'n ateb y cwestiwn 'Beth?' fel *beth* yw e – tŷ, fflat stafell – yna mae'n ddisgrifiadol ...
- MIRIAM** Ystafell braf, heulog, gyda gwely dwbl, desg a chwpwrdd dillad.
- CATH** Da iawn. Ti'n disgrifio cynnwys y stafell i'r lojar wybod beth sy ar gael 'ma.
- JAC** Iawn. ,Stafell braf, heulog gyda gwely dwbl, desg a chwpwrdd dillad ar gael mewn tŷ ...' Cyffyrddus? Cyfleus?
- CATH** Mmm, ia, iaith berswadiol. Felly, be am 'Tŷ cyffyrddus a chyfleus, deng munud o ganol y ddinas'?
- MIRIAM** Mi ddylia ni sôn amdanon ni'n hunain hefyd. 'Dan ni'n rhan o'r pecyn, dydan?
- CATH** Ocê, dechreua eto. 'Shwmae!' neu 'Helô! Mae tri o bobl weithgar, bywiog a hynod olygus...'
- MIRIAM** Syniad da dechrau efo'r chyfarchiad. Mae'n tynnu sylw ac mae'n gyfeillgar, dydy? Felly: 'Helô! Mae tri o bobl weithgar a bywiog yn chwilio am rywun i rannu tŷ braf, cyfleus, deng munud o ganol y ddinas. Stafell braf, heulog gyda gwely dwbl, desg a chwpwrdd dillad.'
- JAC** Iawn. Nawr 'te, mwy am y math o berson ry'n ni'n chwilio amdano?
- MIRIAM** Ia.
- CATH** Tal, tywyll, golygus ...
- JAC** Pam bod rhaid iddyn nhw fod yn dal?!
- CATH** I newid bylbs?
- MIRIAM** Beth am 'Rydyn ni'n chwilio am rywun 20–25 mlwydd oed'?
- CATH** Ia, a sy'n mwynhau hwfro!

Bitesize

JAC	Be, fel yr un yma?
MIRIAM	Reit, 'nôl at yr hysbyseb.
CATH	Mae angen iaith gyfarwyddiadol rŵan. Sut i gysylltu a gwneud cais – achos bydd cannoedd isio byw efo ni ar ôl darllen hwn!
MIRIAM	O, bydd! Ocê, dwi isio'ch berfau gorchmynnol chi, os gwelwch yn dda.
CATH	lawn, a be am 'Gyrrwch ddisgrifiad ohonoch ...'
JAC	,A chysylltwch cyn gynted â phosib.' Ydy, mae'n disgrifio ...
MIRIAM	A pherswadio ...
CATH	Gyrra fo!